# Yr Adran Orthopteg

# Ecsotropia-Atebion i rai cwestiynau cyffredin Gwybodaeth i gleifion

---

**Ecsotropia**

**Beth yw Ecsotropia?**
Math o lygad croes yw ecsotropia lle mae’r llygad yn troi allan.  Pan fydd un llygad wedi troi, nid yw’r llygaid yn cydweithio fel pâr.

Mewn rhai plant, mae’r ecsotropia’n bresennol drwy’r amser ac mewn eraill gall fod yn ysbeidiol.  Mae’n bosibl y bydd maint y llygad croes yn amrywio yn dibynnu ar bellter y gwrthrych y maen nhw’n edrych arno. Mae’n bosibl y bydd yr ecsotropia mewn un llygad neu gall newid rhwng y ddau lygad.  Mae’n bosibl y byddwch chi’n sylwi ar eich plentyn yn cau un llygad yn arbennig mewn golau haul llachar.

**Beth sy’n achosi Ecsotropia?**
Gall yr angen am wisgo sbectol achosi Ecsotropia neu wendid cyhyr y llygad, neu lefel is o olwg yn un llygad.

Weithiau, nid oes unrhyw reswm amlwg am y llygad croes ond yn aml, mae hanes teuluol o wisgo sbectol a/ neu lygad croes.

**A fydd llygad croes fy mhlentyn yn gwella?**
Ddim fel arfer, er bod rhai llygaid croes yn mynd yn llai amlwg fel mae person yn mynd yn hŷn.

**A fydd fy mhlentyn angen triniaeth?**
Ddim bob amser.  Rydyn ni’n monitro plant i sicrhau bod eu golwg yn datblygu’n normal.  Os bydd gwahaniaeth yn lefel y golwg rhwng y ddau lygad, mae’n bosibl y bydd eich plentyn angen triniaeth â chlytiau. Defnyddir clwt i guddio’r llygad “da” am ychydig oriau bob dydd i annog gwella golwg y llygad arall.  Bwriad y clwt yw helpu’r golwg i ddatblygu ond mae’n debygol y bydd yr ecsotropia yn dal i fod yno ar ôl defnyddio’r clytiau.

Mae’n bosibl y bydd plant gydag ecsotropia angen sbectol i wella eu golwg.  Hyd yn oed os bydd gan y plentyn olwg da, mae’n bosibl y bydd yn gorfod gwisgo sbectol i gywiro’r llygad croes.

Pan fydd llygad croes yn amlwg, mae’n bosibl y bydd angen llawfeddygaeth i wella ymddangosiad y llygaid.  Os bydd y llygad croes yn rhy fach ar gyfer llawfeddygaeth a’i fod yno am gyfnodau’n unig, mae’n bosibl y bydd ymarferion llygaid yn cael eu rhoi i’r plentyn i’w helpu i gadw’r llygaid yn syth.

**Ai'r un driniaeth sydd ar gyfer pob llygad croes?**
Nage – mae nifer o wahanol fathau o lygaid croes sydd angen triniaethau gwahanol. Nid oes dau lygad croes yr un fath ac ni ddylid cymharu. Bydd triniaeth yn cael ei gynnig fesul un.

**Pwy fydd yn trin llygaid fy mhlentyn?**
Bydd tîm llygaid yn trin eich plentyn, a all gynnwys y bobl ganlynol:

- Yr Orthoptydd - Mae Orthoptwyr yn arbenigo mewn mesur a thrin llygaid croes a datblygiad gweledol mewn plant. Bydd yr Orthoptydd yn monitro golwg eich plentyn yn rheolaidd ac yn eich cynghori os byddwch chi angen unrhyw glytiau. Mae'r Orthoptydd yn gweithio'n agos gyda'r Optometrydd a'r Offthalmolegydd .
- Yr Optegydd/ Optometrydd – Bydd yr Optometrydd yn rhagnodi sbectol os bydd angen ac yn dweud wrthych am unrhyw newid sydd angen.
- Yr Offthalmolegydd (meddyg llygaid) – Yr Offthalmolegydd sy'n gyfrifol am ofal cyffredinol eich plentyn a iechyd llygaid. Mae'n bosibl y bydd yn rhagnodi sbectol. Bydd yn penderfynu os bydd angen llawfeddygaeth ac ef/ hi fydd yr un fydd yn cynnal y llawdriniaeth.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**